# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llys y Bryn**

**Llys y Bryn**
**Heol y Gelli**
**Llanelli**
**SA14 9AD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Llys y Bryn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 45 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Caiff y bobl y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o anghenion a dewisiadau unigol y bobl. Mae'r cofnodion gofal electronig yn fanwl, yn adlewyrchu anghenion gofal presennol ac yn cynnwys y person a/neu ei gynrychiolydd. Mae'r bobl, eu perthnasau, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn canmol y gweithwyr gofal a thîm rheoli'r gwasanaeth.

Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol a dirprwy reolwr. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'n defnyddio'r ymweliadau hyn ac amrywiaeth o ddulliau archwilio ansawdd i sicrhau bod ganddo drosolwg da o'r gwasanaeth.

Mae Llys y Bryn yn cynnig amgylchedd croesawgar a glân i'r bobl. Mae'r dodrefn a'r addurniadau mewnol mewn cyflwr da. Mae ychydig o waith wedi cael ei gwblhau er mwyn gwneud yr ystafelloedd ymolchi cymunedol yn fwy croesawgar i'r bobl eu defnyddio. Caiff ymgyngoriadau eu cynnal â'r bobl i gasglu eu barn ar y lluniau a'r gweithiau celf sy'n cael eu harddangos yn y coridorau cymunedol.

## Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely a dewis eu prydau bwyd a gallant godi a mynd i'w hystafelloedd pan fydd yn gyfleus iddyn nhw.
Caiff yr unigolion a/neu eu cynrychiolwyr eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Caiff eu safbwyntiau eu ceisio'n weithredol gan y rheolwyr yn ystod cyfarfodydd grŵp a chyfarfodydd â phreswylwyr unigol, gan yr Unigolyn Cyfrifol yn ystod ei ymweliadau Rheoliad 73 a thrwy holiaduron a ddefnyddir i lywio'r adroddiadau chwe-misol ar Ansawdd y Gofal. Mae'r bobl yn sgwrsio yn Gymraeg ac yn cael gwybodaeth yn Gymraeg os mai dyna yw eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn poeni am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae gan y staff gofal wybodaeth dda am anghenion unigol y bobl. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth dda am ofynion a dewisiadau'r bobl. Mae gweithwyr iechyd, meddygol a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys yng ngofal y bobl i sicrhau eu bod yn cadw mor iach â phosibl. Gall y bobl godi pryderon am y gwasanaeth os bydd angen iddynt wneud hynny. Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddiant da ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir. Mae'r staff yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl ac maent yn cael eu cefnogi gan bolisïau sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Ar y cyfan, mae'r amgylchedd yn helpu'r bobl i gynnal eu llesiant. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac yn groesawgar. Mae'r bobl yn gwneud defnydd o'r ystod o lolfeydd a chyfleusterau cymunedol a ddarperir er mwyn iddynt gyfarfod a chymdeithasu. Fodd bynnag, mae angen trafod rhai o'r arddangosiadau yn y coridorau cymunedol gyda'r bobl i gasglu eu barn ac i sicrhau eu bod yn helpu'r unigolion i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y coridorau. Mae ymdrechion wedi cael eu gwneud i wneud yr ystafelloedd ymolchi cymunedol yn fwy cartrefol i'r bobl eu defnyddio a'u mwynhau.

## Gofal a Chymorth

Caiff anghenion a dewisiadau unigol y bobl eu cydnabod a'u deall. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus am hanesion personol yr unigolion a'u hanghenion gofal penodol yn unol â'u dewisiadau dyddiol. Mae'r cofnodion gofal y gwnaethom eu darllen yn rhoi darlun da o'r unigolyn, ei hanes, ei arferion dyddiol a'i anghenion gofal, cymorth a meddygol penodol. Caiff gweithwyr iechyd a gweithwyr meddygol proffesiynol eu cynnwys yn y broses o ofalu am y bobl a rhoi cymorth iddynt pan fo angen ac mae hyn wedi'i ddogfennu'n dda yn y cofnodion gofal. Dywedodd y gweithwyr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth *“This is a very good home; we have no issues. They know the residents and follow instructions well. We have good relationships with the manager and deputy manager”.* Caiff asesiadau risg cysylltiedig eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff yr unigolion a/neu eu cynrychiolwyr eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal.

Mae'r bobl yn dewis ble i dreulio eu diwrnodau, tra bod rhai yn treulio eu hamser yn yr ardaloedd cymunedol, mae eraill yn dewis treulio eu hamser yn eu hystafelloedd gwely. Dywedodd un person wrthym "*I like to keep myself to myself, so I sit in my room mostly”.* Mae amrywiaeth o opsiynau ar gael o ran prydau bwyd y gall y bobl eu bwyta yn yr ystafell fwyta gymunedol neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Dywedodd y bobl wrthym "*The food is good and there are always choices available as well as the main menu options”.*

Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn fodlon â Llys y Bryn a'r gofal a'r cymorth a ddarperir iddynt. Mae rhai o'r sylwadau yn cynnwys *“I am very happy with the care and support being provided, mam hasn’t been here long, but has settled in and has put a little weight on”, “They [care workers] are excellent here, just like my friends”* a *“the carers are very good”.*

Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr i roi gwybodaeth i'r bobl a cheisio adborth ganddynt. Caiff y cyfarfodydd eu dogfennu'n dda. Dywedodd un person wrthym *“If I have a problem, I discuss it with X [fellow resident] and he will take it to a meeting”.* Dylid rhoi ystyriaeth ychwanegol i gadw cofnod o drafodaethau a gynhelir gyda phobl nad ydynt yn mynychu'r prif gyfarfodydd preswylwyr neu sy'n methu â mynychu'r cyfarfodydd hynny.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn Llys y Bryn ac y gallant godi pryderon os oes angen iddynt wneud hynny. Dywedwyd wrthym, *“I know I can raise a concern if I need to and it would be listened to by the staff and manager”* ac *“Yes, I do feel safe living here, it’s a very friendly home”.* Dywedodd perthnasau wrthym hefyd eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn codi pryderon a'u bod yn gwybod bod eu hanwyliaid yn ddiogel *“I know I can speak to the manager with any concerns, and I will be listened to”* ac *“I know my mum is safe”.* Caiff manylion am weithdrefn gwyno Cyngor Sir Caerfyrddin eu darparu i'r bobl pan fyddant yn symud i'r gwasanaeth, ac maent hefyd wedi'u harddangos yn yr ardaloedd cymunedol.

## Yr Amgylchedd

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau. Mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Caiff amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw eu cynnal. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u cynnal a'u cadw o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd.

Mae'r ardaloedd cymunedol a'r allanfeydd argyfwng yn daclus ac yn rhydd rhag peryglon. Caiff sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel. Mae larymau argyfwng yn hawdd eu cyrraedd i'w defnyddio gan y bobl ac mae'r staff yn ymateb iddynt yn amserol. Mae'r gwasanaeth yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg.

Ar y cyfan, gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae gan y bobl ystafelloedd gwely en-suite sydd wedi'u personoli yn unol â'u dewisiadau. Mae coridorau'r ystafelloedd gwely wedi eu haddurno'n ddymunol â lluniau a phwyntiau o ddiddordeb mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, mae nifer o'r arddangosiadau yn y coridorau yn dangos geiriau cadarnhaol i gynorthwyo a hysbysu'r gweithwyr gofal yn hytrach na'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae hyn wedi cael ei godi gyda'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol a fydd yn ymgynghori â'r bobl i gasglu eu barn ar yr arddangosiadau ac yn gweithredu ar eu hadborth.

Caiff hysbysiadau eu harddangos ar ddrysau'r ystafelloedd ymolchi cymunedol ac wrth fynedfa un o'r lolfeydd cymunedol sy'n nodi anghenion gofal personol y bobl yn ogystal ag anghenion ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Trafodwyd hyn â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol, ac mae'r hysbysiadau wedi cael eu symud o olwg y cyhoedd. Mae arwyddion dwyieithog drwy gydol y gwasanaeth.

Mae ychydig o waith wedi ei gwblhau er mwyn gwneud yr ystafelloedd ymolchi cymunedol yn fwy cartrefol i'r bobl eu defnyddio a'u mwynhau. Fodd bynnag, dylid ystyried sut y gellid gwella'r rhain ymhellach.

Mae nifer o lolfeydd cymunedol bach ac ardaloedd i'r bobl eistedd a chymdeithasu, neu gael llonyddwch a thawelwch. Mae siop goffi sy'n groesawgar ac wedi ei haddurno'n dda. Mae hon ar agor ddwywaith yr wythnos ac yn cael ei rhedeg gan wirfoddolwr. Mae siop ar gael sydd ar agor o bryd i'w gilydd i'r bobl brynu eitemau. Gall y bobl brynu eitemau y tu allan i'r oriau agor gyda chymorth y staff. Mae siop symudol wrthi'n cael ei datblygu. Mae siop trin gwallt ar y safle gyda thriniwr gwallt yn ymweld yn wythnosol. Gall y bobl hefyd ddefnyddio'r siop trin gwallt ar gyfer apwyntiadau preifat gyda thrinwyr gwallt allanol a gweithwyr gofal.

Mae'r gerddi cymunedol o flaen y gwasanaeth mewn cyflwr da gyda phlanhigion, llwyni a nodwedd ddŵr. Fodd bynnag, nid yw'r gerddi cefn mewn cyflwr cystal, ac mae angen rhoi sylw iddynt. Dywedodd y rheolwr wrthym fod cynlluniau ar waith i ddatblygu'r gerddi cefn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod trefniadau llywodraethu cynhwysfawr ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi cwblhau ymweliadau Rheoliad 73. Mae AGC wedi cael copïau o'r adroddiadau, sy'n dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r gwasanaeth. Gwnaeth y staff a'r bobl gadarnhau hyn gyda ni. Mae amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau ar waith. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae prosesau recriwtio a dethol da ar waith. Caiff y gwiriadau a'r cliriadau cywir eu cynnal a'u dogfennu cyn i'r staff ddechrau eu cyflogaeth.

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm rheoli a staff medrus sydd wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n dda. Mae'r rheolwr yn brofiadol, wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn cael ei gynorthwyo gan ddirprwy reolwr llawn amser ynghyd ag uwch-dîm gofal. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio wedi'u dogfennu rheolaidd, ac arfarniad blynyddol. Mae lefelau presenoldeb yn y cyfarfodydd tîm yn dda, ac mae'r cyfarfodydd yn llawn gwybodaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cael ystod o hyfforddiant gorfodol a phenodol a chafodd hyn ei gadarnhau gan aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ogystal â matrics hyfforddiant y gwasanaeth. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym *“I’ve had lots of training since starting work here, it’s all really interesting”.*

Caiff y rheolwr a'r dirprwy reolwr eu parchu'n fawr gan y gweithwyr gofal a ddywedodd wrthym “*This is a great place to work, I really enjoy it. [manager] and [deputy manager] are really good, they are very helpful and approachable”* ac *“I feel well supported by the manager and RI. The team work well together”.*

Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i amddiffyn y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Mae'r staff yn symud ac yn cefnogi'r bobl yn ddiogel, ac mae eu hanghenion unigol yn cael eu hystyried.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Mae’r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu’r gwasanaeth a ddarperir ac mae AGC yn cael gwybod am ddigwyddiadau yn briodol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/12/2023